# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 7

CYFFREDINOL

### 81 Ystyr "uned cyfeirio disgyblion" ac ymadroddion cysylltiedig

(1) Yn y Ddeddf hon, mae i "uned cyfeirio disgyblion" yr ystyr a roddir i "pupil referral unit" gan adran 19A(2) o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56) (darpariaeth eithriadol o addysg mewn unedau cyfeirio disgyblion neu mewn mannau eraill: Cymru).

(2) Yn y Ddeddf hon—

(a) ystyr yr awdurdod lleol, mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion, yw'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr uned, a

(b) ystyr y pwyllgor rheoli, mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion, yw'r pwyllgor (os oes un) a sefydlir i weithredu fel y pwyllgor rheoli ar gyfer yr uned o dan reoliadau a wneir o dan Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 81 mewn grym ar 30.4.2021, gweler **a. 84(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 81.